Tachwedd 2018

Annwyl Gydweithiwr

Goruchwylio cyfres arholiadau TGAU Gaeaf 2018/19

Cyn cyfres arholiadau y gaeaf (Tachwedd 2018 a Ionawr 2019), rwyf yn ysgrifennu i bob ysgol a choleg i esbonio sut y byddwn yn goruchwylio'r broses o ddyfarnu cymwysterau TGAU, a Bagloriaeth Cymru. Yn y llythyr hwn, byddaf yn canolbwyntio ar y cymwysterau TGAU y bydd dysgwyr yn eu sefyll ym mis Tachwedd 2018, a'r elfennau o TGAU a Bagloriaeth Cymru y byddant yn eu sefyll ym mis Ionawr 2019.

Cyfres mis Tachwedd 2018

Bydd cymwysterau TGAU Mathemateg – Rhifedd a TGAU Mathemateg yn cael eu arholi am y pumed tro fis Tachwedd yma. Dyma'r pedwerydd tro i'r cymwysterau TGAU newydd mewn Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith gael eu arholi hefyd. Mewn cyfresi Tachwedd blaenorol, dim ond myfyrwyr a oedd yn ailsefyll oedd yn cael cofrestru ar gyfer TGAU Saesneg Iaith a TGAU Cymraeg Iaith. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am newidiadau i fesurau perfformiad ysgol yn 2019, mae'r cyfyngiadau cofrestru ar gyfer y gyfres hon wedi cael eu codi [1].

Cyfres mis Ionawr 2019

Ym mis Ionawr 2019, bydd un uned o gymwysterau TGAU Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg yn cael ei harholi. Gellid hefyd gyflwyno elfennau unigol o gymwysterau Cyfnod Allweddol 4 ac Uwch Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru at ddibenion cymedroli a dyfarnu.

Bydd rhai unedau o fewn y pynciau TGAU nas diwygiwyd, megis TGCh ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn cael ei harholi.

[1]https://gov.wales/docs/dcells/publications/171019-early-entry-letter-cy.pdf?_cldee=a2VycnkuZGF2aWVzQHF1YWxpZmljYXRpb25zd2FsZXMub3Jn&recipientid=contact-4950940a0a1ae7118104e0071b6e3521-216b174c9ea34d4aba13a5f4887e0cd1&esid=9bd1945b-97b9-e711-811b-e0071b6e1771&urlid=3

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Bydd cyfleoedd ailsefyll terfynol ar gyfer cymwysterau TGAU etifeddol mewn pynciau lle mae cymwysterau diwygiedig wedi cael eu cyflwyno i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2017, megis Cyfrifiadureg, Hanes a Seicoleg. Gallwch gael rhagor o fanylion ynglŷn â chyfleoedd ailsefyll ar wefannau cyrff dyfarnu. Rydym yn disgwyl mai dim ond niferoedd bach o fyfyrwyr a gaiff eu cofrestru ar gyfer yr arholiadau hyn.

Cofrestriadau Arholiadau mis Tachwedd

Mae data cofrestriadau dros dro sy'n cael eu casglu gan CBAC yn rhoi arwydd cynnar i ni o'r patrymau cofrestru ar gyfer pob cyfres arholiadau. Defnyddiwn y data hyn i'n helpu i gynllunio ein dull o oruchwylio'r dyfarniadau a dehongli'r canlyniadau.

Cyhoeddwyd ystadegau swyddogol ar gofrestriadau mis Tachwedd am 09:30yb ddydd Iau 29 Tachwedd 2018. Mae'r ystadegau swyddogol yn dangos bod 22,450 o gofrestriadau TGAU ym mis Tachwedd, o gymharu â 32,395 (59.1%) fis Tachwedd diwethaf. Mae cofrestriadau Blwyddyn 11 yn cyfrif am 18,585 (82.8% o'r holl gofrestriadau) o gymharu â 50,190 (91.5% o'r holl gofrestriadau) fis Tachwedd diwethaf. Efallai fod y newidiadau mawr hyn i gofrestriadau yn rhannol yn ymateb i newidiadau i fesurau perfformiad gan Lywodraeth Cymru wedi'u hanelu at atal cofrestru cynnar a lluosog ar raddfa helaeth. Roedd 3,345 o gofrestriadau Tachwedd ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yn 2018, sef gostyngiad o 71.8%. Roedd 52.6% o gofrestriadau Tachwedd TGAU Saesneg Iaith o blith myfyrwyr blwyddyn 11, o gymharu ag 88.3% fis Tachwedd diwethaf. Cafwyd 6,720 o gofrestriadau ar gyfer Mathemateg, gostyngiad o 15,950 (70.4%). Cafwyd 12,170 o gofrestriadau ar gyfer Mathemateg – Rhifedd, gostyngiad o 7,560 (38.3%). Roedd 73.4% o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 11, o gymharu â 96.3% ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n datganiad ystadegau swyddogol[2].

Rydym wedi gofyn i CBAC ddefnyddio dull 'canlyniadau cymaradwy' sy'n sicrhau bod y safon yn cael ei chynnal o un gyfres i'r llall, fel y gwnaethom mewn cyfresi blaenorol. Mae mwy o wybodaeth am y dull canlyniadau cymaradwy ar gael ar ein gwefan.

Cyhoeddi'r canlyniadau

Bydd myfyrwyr yn cael eu canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU mis Tachwedd eleni **ddydd Iau 17 Ionawr 2019.** Bydd ysgolion a cholegau yn cael y canlyniadau ddiwrnod ynghynt, ddydd Mercher 16 Ionawr 2019.

[2] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/an-annual-report-which-presents-provisional-data-on-november-2018-gcse-and-level-1level-2-certificates-entries-for-wales/

Bydd myfyrwyr yn cael eu canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU mis Ionawr **ddydd Iau 7 Mawrth 2019.** Bydd ysgolion a cholegau yn cael y canlyniadau ddiwrnod ynghynt, ddydd Mercher 6 Mawrth 2019.

Rhagor o Wybodaeth

Gobeithiaf y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i chi. Rydym yn darparu diweddariadau cyson i ysgolion a cholegau ar gymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau eraill a reoleiddir gennym drwy ein cylchlythyr 'Y Llechen'. Gallwch gofrestru i gael hwn ar ein gwefan

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr